

# **Arolygiad Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl: Gwasanaeth Iechyd Meddwl y GIG (Dirybudd)**

Ysbyty Tywysoges Cymru / Ward  
14 ac Uned Gofal Dwys Seiciatrig  
/ Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe  
Bro Morgannwg

Dyddiad yr arolygiad: 21 Tachwedd  
2017

Dyddiad cyhoeddi: 22 Chwefror 2018

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Y Rheolwr Cyfathrebu**  
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**  
**Parc Busnes Rhyd-y-car**  
**Merthyr Tudful**  
**CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn: 0300 062 8163**  
**E-bost: [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)**  
**Ffacs: 0300 062 8387**  
**Gwefan: [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)**

## Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom .....	5
2.	Crynodeb o'n harolygiad .....	6
3.	Yr hyn a ganfuom.....	8
	Ansawdd profiad y claf .....	9
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .....	14
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.....	19
4.	Beth nesaf? .....	21
5.	Sut rydym yn cynnal arolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG.....	22
	Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .	23
	Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .....	24
	Atodiad C – Cynllun gwella.....	25

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.

## Ein gwerthoedd

- Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol

## Ein blaenoriaethau

Ein nod trwy ein gwaith yw:

Darparu sicrwydd:

Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.

Hybu gwelliant:

Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.

Dylanwadu ar bolisi a safonau:

Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd i fonitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn y gwasanaethau GIG a ddarperir gan Ysbyty Tywysoges Cymru, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, ar 21 Tachwedd 2017. Ymwelwyd â'r wardiau canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Ward 14
- Uned Gofal Dwys Seiciatrig

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid y Ddeddf Iechyd Meddwl.

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom adolygu dogfennau ar gyfer cleifion sydd wedi cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 er mwyn asesu cydymffurfiaid â'r Ddeddf. Gwnaethom ystyried sut roedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r canlynol:

- Deddf Iechyd Meddwl 1983
- Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010
- Deddf Galluedd Meddyliol 2005

Archwiliodd AGIC hefyd sut roedd y gwasanaeth yn bodloni agweddau ar Safonau Iechyd a Gofal 2015.

Ceir mwy o fanylion am sut rydym yn cynnal arolygiadau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn y GIG yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n harolygiad

Canfuom fod gofynion y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r cod ymarfer yn cael eu bodloni. Roedd cofnodion cleifion wedi cael eu trefnu'n dda, yn hawdd eu darllen, ac yn cynnwys gwybodaeth berthnasol. Roedd y gwaith papur a adolygwyd gennym yn fanwl, ac roedd llinellau atebolrwydd clir a thystiolaeth o sut y gwnaed penderfyniadau ynglŷn â gofal cleifion.

Roedd rhaglen o archwiliadau, gan gynnwys archwilio ffeiliau cleifion, cyffuriau a reolir a rheoli heintiau, yn sicrhau bod safonau uchel yn cael eu cynnal a bod unrhyw gamau a nodwyd yn cael eu holrhain. Roedd canlyniadau archwiliadau'n cael eu cyfathrebu a'u rhannu gyda staff.

Roedd yr amgylchedd yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan. Gwnaethom argymell gwneud rhai gwelliannau ar Ward 14 a fydd yn sicrhau bod safonau uchel yn parhau.

Drwy drafodaethau â staff ac arsylwadau ar y ddwy ward, daethom i'r casgliad fod gwaith tîm da ar waith a bod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion.

Gwelsom rai clychau galw am nyrs wedi'u lleoli y tu allan i rai ystafelloedd gwely ar Ward 14, ac rydym wedi argymell bod y bwrdd iechyd yn adolygu hyn er mwyn sicrhau nad yw diogelwch cleifion yn cael ei beryglu pe bai angen cefnogaeth arnynt.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd tîm y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnal hyfforddiant pwrpasol ar y Ddeddf Iechyd Meddwl i fyfyrwyr, nyrsys cymwys, nyrsys cyffredinol a staff yn fewnol.
- Roedd archwiliadau rheolaidd yn sicrhau bod safonau'n cael eu cynnal a bod unrhyw gamau a nodwyd yn cael eu holrhain.

- Roedd byrddau croeso yn cynnig gwybodaeth gynhwysfawr yn y Gymraeg a Saesneg i ymwelwyr a chleifion.
- Roedd tîm y Ddeddf Iechyd Meddwl a staff y ward yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y gwaith papur ar y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r Ddeddf a'r cod ymarfer. Er mwyn cynnal y safon hon, rhoddwyd cefnogaeth a chynghor i staff y ward yn rheolaidd a phan oedd angen.

Gwnaethom argymhell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu hygyrchedd y clychau galw am nyrs ar Ward 14 er mwyn sicrhau nad yw diogelwch y cleifion yn cael ei beryglu oherwydd eu lleoliad ar hyn o bryd.
- Gwella rhai manau ar Ward 14 – yn benodol, atgyweirio'r ffôn talu i gleifion a'r drws tân sydd wedi'i ddifrodi. Sicrhau bod llenni (neu debyg) yn ystafelloedd gwely pob claf er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas y cleifion.
- Adolygu'r trefniadau ymweld ar Ward 14 er mwyn sicrhau y rhoddir preifatrwydd i gleifion ac ymwelwyr gwrdd a sgwrsio, heb i eraill ddigwydd eu clywed wrth iddynt ddefnyddio'r ystafell fwyta.

### 3. Yr hyn a ganfuom

#### **Cefndir y gwasanaeth**

Mae Ysbyty Tywysoges Cymru yn darparu gwasanaethau iechyd meddwl y GIG yn Heol Coety, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1RQ, fel rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg.

Clinig Coety yw'r uned iechyd meddwl ar safle Ysbyty Tywysoges Cymru sy'n cynnig asesiadau, ymyriadau therapiwtig a chymorth i unigolion sy'n dioddef o gyfnod iechyd meddwl aciwt lle mae angen gofal preswyl ar y claf.

Mae gan Glinig Coety amgylcheddau ward sydd wedi'u cynllunio'n benodol er mwyn diwallu anghenion pobl hŷn, pobl sydd â dementia ac oedolion iau, yn ogystal ag uned gofal dwys seiciatrig ar gyfer pobl sydd ag anghenion cymhleth tymor byr.

Uned asesu aciwt 20 gwely ar gyfer cleifion gwrywaidd a benywaidd yw Ward 14. Ar adeg ein hymweliad, roedd 20 o gleifion yn cael eu lletya, gyda dau glaf yn absennol trwy ganiatâd.

Uned wyth gwely ar gyfer cleifion gwrywaidd a benywaidd yw'r uned gofal dwys seiciatrig. Ar adeg ein hymweliad, roedd chwech o gleifion yn cael eu lletya.

Roedd gan y ddwy ward dîm o staff oedd yn cynnwys ymgynghorwyr, seicolegwyr, therapyddion galwedigaethol, fferyllwyr, nyrsys, cynorthwywyr gofal iechyd a staff gwasanaethau gwesty.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwnaethom arsylwi ar staff yn trin cleifion â pharch a charedigrwydd yn ystod ein harolygiad.

Roedd hysbysfyrddau a byrddau croeso yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i gleifion ac ymwelwyr. Roedd systemau er mwyn casglu adborth gan gleifion ac ymwelwyr ar waith, ac roedd canlyniadau wedi eu dangos. Roedd y tîm cyfathrebu a thîm profiad y claf yn sicrhau bod adborth yn cael ei olrhain.

Roedd gweithgareddau cymdeithasol a hamdden yn cael eu cynnig, a gwelsom gleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystod ein hymweliad.

Rydym wedi argymhell bod y ffôn talu ar Ward 14 yn cael ei atgyweirio fel bod modd i gleifion ei ddefnyddio fel ffordd o gysylltu â theulu a ffrindiau. Gwnaethom hefyd argymhell adolygu'r trefniad sydd ar waith ar Ward 14 lle defnyddir yr ystafell fwyta yn bennaf gan ymwelwyr. Mae hyn er mwyn sicrhau nad oes modd i ymwelwyr eraill ddigwydd clywed sgysiau preifat a sensitif ar ddamwain pan fyddant yno.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom gynnig y cyfle i gleifion, staff ac ymwelwyr siarad â ni. Dywedodd y rhai y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y gofal a'r driniaeth a ddarperir yn dda a bod y staff yn "dîm anhygoel."

### **Cadw'n iach**

Dywedodd staff wrthym fod cleifion yn cael eu hannog i gynnal ffordd iach o fyw, a gwelsom rywfaint o wybodaeth am fwyta'n iach wedi'i harddangos ger agorfa weini'r gegin yn yr uned gofal dwys seiciatrig. Rhoddwyd dewisiadau i'r cleifion ar y ddwy ward o ran yr hyn roeddent am ei fwyta ac yfed, ac roedd

byrbrydau a diodydd ar gael yn hawdd y tu allan i'r amser prydau neilltuedig. Gwnaethom arsylwi ar gleifion yn cael byrbrydau yn ystod ein hymweliad.

Roedd cleifion yn gallu symud yn rhydd ar y ddwy ward. Roedd pwyntiau clymu<sup>1</sup> wedi'u hasesu drwyddi draw yn y wardiau ac roedd risgiau wedi'u lliniaru fel sy'n briodol ar gyfer y grwpiau o gleifion. Roedd y ddwy ward yn addas ar gyfer lletya unrhyw un sydd angen cymorth symudedd.

Roedd modd mynd i'r gerddi ar y ddwy ward yn hawdd – gyda hysbysiad ar bob ward yn nodi'r amseroedd y gellir cael mynediad i'r ardaloedd hyn (ar agor rhwng 6am a chanol nos). Roedd rhai manau o blanhigion a chadeiriau yn y gerddi er mwyn annog y defnydd o'r ardaloedd awyr agored.

Roedd lolfeydd gwrywaidd a benywaidd penodol gan Ward 14, ac roedd ardal fawr ar gyfer gwneud gweithgareddau. Roedd bwrdd pŵl mewn un ystafell weithgareddau, ac roedd cadeiriau a byrddau yn yr ystafell arall lle gallai cleifion wneud celf a chrefft, chwarae gemau, darllen, a gwneud posau. Roedd teledu a chwaraewr DVDau yn yr ystafell. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom nifer o gleifion a staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau. Roedd hyn yn golygu bod trefniadau ar waith er mwyn sicrhau bod cleifion wedi'u difyrru'n briodol a'u cadw'n brysur.

Roedd campfa rhwng Ward 14 a'r uned gofal dwys seiciatrig. Roedd digon o gyfarpar yn yr ystafell, gan gynnwys peiriant rhedeg, beic ac offer codi pwysau. Roedd cleifion o'r ddwy ward yn rhannu'r cyfleuster hwn a dywedwyd wrthym fod defnydd da ohono.

Roedd ystafell fyw/fwyta agored gan yr uned gofal dwys seiciatrig. Roedd lolfa dawel hefyd ar y ward, fel bod modd i gleifion treulio amser i ffwrdd o eraill yn unol â'u dymuniadau a'u hoffterau. Roedd llyfrau a sawl radio a theledu yn yr ardaloedd hyn at ddefnydd y cleifion.

Roedd y ddwy ward wedi'u diogelu gan system intercom rhag mynediad heb awdurdod. Roedd y mynediad at y ddwy ward yn briodol er mwyn cynnal diogelwch, preifatrwydd ac urddas cleifion ar y wardiau.

---

<sup>1</sup> Pwynt clymu yw unrhyw beth y gellid ei ddefnyddio i glymu cordyn, rhaff neu unrhyw ddefnydd arall at ddibenion crogi neu lindagu.

Roedd bwrdd statws cleifion<sup>2</sup> ym mhob swyddfa ward a oedd yn dangos gwybodaeth gyfrinachol ynghylch pob claf oedd yn derbyn gofal ar y ward. Roedd cyfleusterau ar gael i guddio gwybodaeth gyfrinachol pan nad oedd y byrddau'n cael eu defnyddio. Roedd hyn yn golygu bod tîm y staff yn gwneud pob ymdrech i ddiogelu cyfrinachedd cleifion.

## **Gofal ag urddas**

Gwnaethom arsylwi ar staff ar y ddwy ward yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â chleifion yn briodol, ac yn trin cleifion ag urddas a pharch. Roedd tystiolaeth hefyd fod staff yn annerch cleifion wrth eu dewis enw. Yn ogystal, roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am sut roeddent yn cefnogi ac yn gofalu am y cleifion.

Ar y ddwy ward, gwelsom fod gan bob ystafell wely banel arsylwi (ffenstr) yn y drws a gwelsom fod y rhain yn bennaf yn agored. Oherwydd nad oedd y cleifion yn gallu defnyddio'r rhain o'r tu mewn i'w hystafell wely, dylai paneli arsylwi fod ar gau er preifatrwydd a chael eu hagor yn unig er mwyn arsylwi neu os yw'r claf yn dewis hynny.

Ar Ward 14, roedd ystafelloedd gwely sengl yn ogystal ag ystafelloedd dwbl ac ystafelloedd cysgu mawr. Defnyddiwyd llenni fel 'rhanwyr' yn yr ardaloedd hyn, ond nid oedd hyn yn hyrwyddo nac yn cynnal urddas a phreifatrwydd cleifion o ran darparu gofal ag urddas. Yn ystod y cyfarfod adborth, gwnaethom felly gynghori'r bwrdd iechyd i ystyried priodoldeb yr ystafelloedd hyn wrth ddarparu gofal ag urddas a bod unrhyw gynlluniau adnewyddu yn y dyfodol yn ystyried hyn.

## **Gwybodaeth i gleifion**

Roedd byrddau croeso yn Gymraeg a Saesneg ar bob ward yn rhoi gwybodaeth gynhwysfawr i ymwelwyr. Roedd y wybodaeth a ddarparwyd yn cynnwys y gwerthoedd a'r safonau gofal, cyngor ynghylch rheoli heintiau, amseroedd ymweld, eglurhad o wisg staff, a sut i roi adborth.

---

<sup>2</sup> Bwrdd sy'n rhoi cyfeiriad cyflym i'r staff ynghylch yr wybodaeth hanfodol am gleifion unigol sy'n derbyn gofal ar y ward.

Yn ogystal â'r byrddau croeso, roedd hysbysfyrddau wedi'u harddangos ar y wardiau ac yng nghoridorau Uned Coety. Roedd gan Ward 14 wybodaeth i gleifion ynglŷn â materion iechyd penodol, gan gynnwys hepatitis B, HIV a gwasanaethau alcohol a chyffuriau. Roedd gwybodaeth am weithgareddau ger yr ystafell weithgareddau ar Ward 14, ac roedd y ddwy ward yn arddangos lluniau o'u timau staff.

Roedd gwybodaeth eiriolaeth, canlyniadau adborth a thafleuni gwybodaeth i ofalwyr ar gael yn hwylus.

### **Cyfathrebu'n effeithiol**

Drwy gydol ein harsylwadau ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion, roedd yn amlwg bod staff yn sicrhau eu bod yn cyfathrebu â chleifion yn effeithiol. Roedd y staff yn treulio amser yn cynnal sgysiau, gan ddefnyddio geiriau ac iaith a oedd yn addas ar gyfer y claf unigol.

Dywedodd staff wrthym fod tîm cyfathrebu a thîm profiad y claf ar waith, a oedd yn cynnig ffordd wahanol o gyflwyno adborth i gleifion ac ymwelwyr. Roedd y timau hyn yn sicrhau bod adborth yn cael ei drosglwyddo i reolwyr y ward fel bod modd iddynt wneud gwelliannau i'r gwasanaeth.

### **Gofal amserol**

Roedd gan y ddwy ward dîm amlddisgyblaethol, a oedd yn cynnwys ymgynghorydd, therapyddion galwedigaethol, seicolegwyr a fferylllydd. Roedd cyfarfodydd amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal bob wythnos a, lle y bo'n berthnasol, byddai rheolwyr cymunedol a staff triniaeth gartref yn dod. Roedd y rhain yn ymgorffori ymagwedd gydweithiol i ofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

Dywedodd staff wrthym fod gwasanaethau eiriolaeth yn dod i gyfarfodydd wythnosol ar Ward 14 ac yn fwy rheolaidd ar yr uned gofal dwys seiciatrig.

### **Gofal unigol**

#### **Hawliau pobl**

Roedd dogfennaeth gyfreithiol i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl neu atal cleifion rhag gadael yr ysbyty yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol.

Gallai cleifion hefyd ddefnyddio'r gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol a hefyd gael mynediad at y Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol pan fo angen.

Gwelsom nad oedd darn llaw gan y ffôn talu ar Ward 14, a gwnaethom argymell bod hyn yn cael ei atgyweirio. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym fod modd i gleifion ddefnyddio ffôn y swyddfa, ac roedd rhai yn gallu defnyddio eu ffonau symudol eu hunain i wneud galwadau.

Dywedodd staff wrthym fod cleifion ar Ward 14 yn defnyddio'r ystafell fwyta er mwyn cwrdd â theulu a ffrindiau. Yn ystod yr ymweliad, gwnaethom arsylwi ar ymwelwyr yn defnyddio'r ystafell fwyta at y diben hwn. Fodd bynnag, nid oeddem yn ystyried y trefniad hwn yn addas oherwydd bod prinder preifatrwydd. Roedd sgysiau'n cael eu clywed yn glir, ac nid oedd hyn yn briodol oherwydd sensitifrwydd y trafodaethau oedd yn digwydd. Gwnaethom felly argymell bod yr ardaloedd sydd ar gael i gleifion a'u teuluoedd yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau y gellir cynnal trafodaethau'n breifat.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen atgyweirio'r ffôn talu ar Ward 14 fel bod modd i gleifion ei ddefnyddio i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.

Mae angen adolygu'r trefniadau ymweld ar Ward 14 er mwyn sicrhau bod modd i gleifion ac ymwelwyr gwrdd yn breifat a siarad heb i eraill ddigwydd eu clywed.

### Gwrando a dysgu o adborth

Roedd ffurflenni adborth ar gael yn hwylus i gleifion ac ymwelwyr roi adborth, ac roeddent wedi'u lleoli ger blwch fel bod modd cyflwyno sylwadau'n ddiennw.

Roedd canlyniadau adborth gan gleifion blaenorol wedi'u harddangos – a oedd yn gadarnhaol. Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym nad oedd rhai cwestiynau yn addas ar gyfer cleifion iechyd meddwl oherwydd bod y ffurflenni adborth yn rhai cyffredinol ac, oherwydd hyn, nid oedd eu canlyniadau'n eglur. Trafodwyd y mater hwn yn ystod ein cyfarfod adborth. Roedd uwch-reolwyr yn ymwybodol o hyn ac yn datblygu atebion i ddatrys y broblem.

Dywedodd staff wrthym y byddent yn cynorthwyo cleifion a oedd yn rhoi unrhyw adborth ar lafar i sicrhau ei bod yn cael ei nodi ac yr eid i'r afael ag ef mewn modd priodol. Byddai unrhyw bwyntiau i'w dysgu a nodwyd o'r adborth yn cael eu rhannu â staff fel y nodwyd.

Roedd gwasanaethau eirioli ar gael i ddarparu cyngor annibynnol i unrhyw glaf a oedd am leisio pryderon.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwnaeth ein hadolygiad o waith papur y Ddeddf Iechyd Meddwl gadarnhau cydymffurfiaeth â'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r cod ymarfer. Gwelsom gofnodion cynhwysfawr a manwl oedd yn hawdd eu darllen. Roedd archwiliadau rheolaidd yn sicrhau bod y safonau uchel a welwyd yn cael eu cynnal.

Roedd amgylchedd yr ysbyty yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan. Gwnaethom argymhell gwneud rhai gwelliannau ar Ward 14 er mwyn sicrhau bod y safon hon yn cael ei chynnal.

Gwelsom rai clychau galw am nyrs wedi'u lleoli y tu allan i rai ystafelloedd gwely ar Ward 14, ac rydym wedi argymhell bod hyn yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau nad yw diogelwch cleifion yn cael ei beryglu o ganlyniad i'w lleoliad.

### **Gofal diogel**

#### **Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**

Roedd prosesau ar waith i reoli ac adolygu risgiau, ac i gynnal iechyd a diogelwch ar Ward 14 a'r uned gofal dwys seiciatrig. Roedd y ddwy ward yn rhoi gofal i gleifion oedd yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac roedd hyn yn cael ei gefnogi gan arferion lleiaf cyfyngol – o ran y gwaith o gynllunio gofal ac arferion y wardiau.

Yn amgylcheddol, roedd y ddwy ward i'w gweld yn lân ac roedd yr uned gofal dwys seiciatrig yn cael ei chynnal a'i chadw. Fodd bynnag, gwelsom rai manau ar Ward 14 oedd angen eu hadolygu a'u gwella. Roedd y drws tân (yn arwain at Ward 15) wedi'i ddifrodi, ac roedd angen ei atgyweirio er mwyn sicrhau nad oedd diogelwch cleifion a staff yn cael ei beryglu. Nid oedd llenni ar ffenestr un ystafell wely, ac roedd y cwpwrdd dillad wedi'i symud er mwyn atal golau yn yr

ystafell. Gwnaethom felly gynghori'r staff fod angen sicrhau bod llenni (neu'r hyn sy'n gyfwerth) yn cael eu gosod yn yr ystafell hon. Roedd hyn er mwyn cynnal urddas a phreifatrwydd cleifion. Dywedwyd wrthym fod cadeiriau newydd ar gyfer y lolfa i ddynion wedi cael eu cymeradwyo, ond o edrych ar y cadeiriau yn y lolfa i fenywod a'r ardal weithgareddau, gwelwyd bod angen i'r rhain gael eu hailosod hefyd oherwydd yr ôl traul difrifol oedd arnynt.

Ar Ward 14, roedd larymau personol gan y staff, a gwelsom staff yn eu gwisgo yn ystod yr ymweliad. O'r ystafelloedd gwely a welsom, roedd y gloch alw i'r cleifion wedi'i lleoli y tu allan i'r ystafell. Dywedodd staff wrthym fod gan gleifion sydd â gwely ysbyty larwm ynghlwm ag ef; fodd bynnag, ar gyfer y cleifion hynny nad oedd angen y math hwn o wely (ond a allai fod angen galw am gymorth), nid oedd lleoliad y gloch alw yn gydnaws â gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom felly argymhell bod y bwrdd iechyd yn adolygu lleoliad yr holl glychau galw i gleifion, yn enwedig yn yr ystafelloedd gwely. Mae hyn er mwyn pennu eu hygyrchedd ac er mwyn sicrhau nad yw diogelwch a/neu urddas y cleifion yn cael ei beryglu oherwydd eu lleoliad ar hyn o bryd.

Roedd digon o le yn y ddwy ward ar gyfer defnyddio cymhorthion symudedd ynddynt.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen atgyweirio a/neu wella'r meysydd canlynol ar Ward 14:

- Mae angen atgyweirio'r ffôn talu i gleifion
- Mae angen gosod llenni (neu'r hyn sy'n gyfwerth) ym mhob ystafell wely er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion
- Mae angen atgyweirio'r drws tân er mwyn sicrhau nad yw diogelwch staff a chleifion yn cael ei beryglu
- Mae angen diweddarau'r cadeiriau yn y lolfa i fenywod a'r ystafell weithgareddau oherwydd ôl traul

Mae angen adolygu lleoliad y clychau galw i gleifion er mwyn sicrhau nad yw diogelwch ac urddas cleifion yn cael eu peryglu oherwydd eu lleoliad

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd prosesau ar waith i sicrhau bod yr ysbyty'n canolbwyntio ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed, gydag atgyfeiriadau yn cael eu gwneud i asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

## **Gofal effeithiol**

### **Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Ar y cyfan, canfuom fod trefniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod yr uned yn darparu gofal diogel a chlinigol effeithiol i gleifion.

Roedd proses newydd ar gyfer monitro iechyd corfforol ar waith, a gwnaethom nodi bod yr holl asesiadau'n seiliedig ar dystiolaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod argymhellion clinigol cyson yn cael eu gwneud.

Gwnaethom sylwi ar ystafelloedd clinigol glân ar y ddwy ward, a gwelsom fod tymereddau'r oergell yn cael eu cofnodi bob dydd. Roedd hyn yn golygu bod cyffuriau'n cael eu storio'n briodol. Roedd y ffordd yr oedd cyffuriau a reolir yn cael eu storio hefyd yn cydymffurfio â gofynion proffesiynol.

### **Cadw cofnodion**

Ffeiliau papur oedd cofnodion y cleifion a adolygwyd gennym, ac roedd 'rhith-ffolder statudol' ar y system gyfrifiadurol oedd yn cynnwys gwaith papur statudol oedd wedi'i sganio ar y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd trefniadau storio diogel ar waith i atal mynediad heb awdurdod a thorri cyfrinachedd.

O'r cofnodion a adolygwyd gennym, roedd tystiolaeth o gadw cofnodion manwl a chynhwysfawr. Roedd cofnodion wedi'u trefnu'n dda ac yn hawdd eu darllen.

Roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal ac roedd unrhyw gamau gweithredu a nodwyd yn cael eu holrhain er mwyn sicrhau bod cofnodion cleifion yn gywir, yn berthnasol ac yn fanwl.

### **Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl**

Gwnaethom adolygu'r dogfennau cadw statudol ar gyfer tri o gleifion dros y ddwy ward. Roedd y cofnodion a adolygwyd yn dangos cydymffurfiaeth â gofynion y Ddeddf Iechyd Meddwl ac roeddent o safon uchel, gan adlewyrchu'r

cod ymarfer.<sup>3</sup> Roedd y cofnodion wedi'u trefnu'n dda ac roedd yr holl gofnodion yn ymwneud â chadw'r cleifion yn bresennol.

O'r cofnodion a adolygwyd gennym, gwelsom linellau atebolrwydd clir a thystiolaeth o sut y gwnaed penderfyniadau ynglŷn â gofal cleifion. Roedd hefyd cofnodion ysgrifenedig dealladwy a manwl yn adlewyrchu penderfyniadau gan y tîm amlddisgyblaethol.

Roedd tîm gweinyddol Deddf Iechyd Meddwl y bwrdd iechyd yn sicrhau bod cleifion yn cael eu hawliau statudol o dan y Ddeddf, gan gynnwys apelio yn erbyn eu cadw. Roedd dystiolaeth fod cleifion yn cael eu cefnogi gan y gwasanaeth eiriolaeth.

Gwnaethom nodi bod pob achos o absenoldeb dan Adran 17<sup>4</sup> wedi cael ei awdurdodi gan y clinigydd cyfrifol ar ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17. Roedd y ffurflenni hyn yn fanwl ac wedi'u cwblhau'n llawn.

O'r cofnodion a adolygwyd gennym, nid oedd gan y cleifion dan gadwad ar absenoldeb Adran 17 ffotograffau i'w nodi yn eu ffeiliau. Mae'n arfer da cadw

---

<sup>3</sup> Mae Cod Ymarfer Cymru Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn ganllaw i feddygon, clinigwyr cymeradwy, rheolwyr a staff ysbytai, a gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy ynghylch sut y dylent weithredu wrth ymgymryd â swyddogaethau a dyletswyddau o dan y Ddeddf. Mae hefyd yn rhoi arweiniad i feddygon a gweithwyr proffesiynol eraill ynglŷn ag agweddau penodol o driniaeth feddygol ar gyfer anhwylderau meddyliol yn fwy cyffredinol.

Ei diben yw bod yn hygyrch i gleifion a gofalwyr, eiriolwyr ac eraill sy'n eu cefnogi. Dylai'r cod hefyd fod o fudd i Dribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, gwasanaethau'r heddlu ac ambiwlans, ac eraill sydd yn rhan o'r gwaith o ddarparu gwasanaethau i bobl sydd, neu allai ddod, yn destun gorfodaeth o dan y Ddeddf.

<sup>4</sup> Gall eich clinigydd cyfrifol roi caniatâd i chi adael yr ysbyty am gyfnod penodol er eich bod yn cael eich cadw dan adran o'r Ddeddf. Gelwir hyn yn aml yn 'absenoldeb Adran 17' oherwydd mai Adran 17 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl sy'n galluogi hyn. Gall eich absenoldeb trwy ganiatâd fod: am gyfnod byr iawn (e.e. am hanner awr neu am ychydig o oriau); am benwythnos (i fynd adref er enghraifft); am gyfnod hirach (hyd at wythnos). Gall eich clinigydd cyfrifol osod amodau penodol arnoch, megis dweud wrthy ch ble y mae'n rhaid i chi aros pan fyddwch ar gyfnod o absenoldeb trwy ganiatâd. Gall eich clinigydd cyfrifol eich gorfodi i ddychwelyd (eich galw'n ôl) i'r ysbyty ar unrhyw adeg. [www.mind.org.uk](http://www.mind.org.uk)

ffotograff o'r claf yn ei ffeil oherwydd gall hyn helpu gydag unrhyw sefyllfaoedd lle mae claf yn 'absennol heb ganiatâd'.

### **Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010**

Ynghyd â'n hadolygiad o ddogfennau cadw statudol, gwnaethom ystyried defnydd o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010.<sup>5</sup> Gwnaethom adolygu pedwar cynllun gofal a thriniaeth a gweld bod tystiolaeth fod cydlynwyr gofal wedi cael eu nodi ar gyfer cleifion a, lle y bo'n briodol, fod aelodau'r teulu'n rhan o drefniadau cynllunio gofal.

Gwelsom fod gwasanaethau eiriolaeth yn hanfodol i'r broses asesu, ac roedd y llwybr atgyfeirio at eiriolaeth (siart lif) yn galluogi i'r gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol a'r Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol roi'r cymorth priodol pan fo angen. Roedd tystiolaeth glir yn y cynlluniau gofal a thriniaeth a adolygwyd gennym fod gwasanaethau eiriolaeth ar gael i'r holl gleifion a bod gwybodaeth yn ymwneud â'r gwasanaethau hyn yn hygyrch.

Er mwyn cefnogi cynlluniau gofal cleifion, roedd amrywiaeth eang o asesiadau cleifion i nodi a monitro'r gofal a ddarperir i gleifion, ynghyd ag asesiadau risg a oedd yn nodi'r risgiau canfyddedig a sut i'w lliniaru a'u rheoli.

Roedd y cynlluniau y gwnaethom eu hadolygu wedi dangos yn glir pan oedd claf wedi gwrthod llofnodi a/neu gytuno i'w gynllun gofal a thriniaeth.

Gwelsom fod y cynlluniau gofal a thriniaeth yn adlewyrchu parthau Mesur Cymru.

---

<sup>5</sup> Mae gan Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yr un statws cyfreithiol yng Nghymru â deddfau iechyd meddwl eraill. Mae Mesur 2010 yn trafod y cymorth a ddylai fod ar gael i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl yng Nghymru, lle bynnag y gallent fod yn byw. Bwriad y Mesur yw sicrhau, lle caiff gwasanaethau iechyd meddwl eu darparu, eu bod yn canolbwyntio'n fwy priodol ar anghenion unigol pobl. I gael rhagor o wybodaeth: <http://www.iechydmeddwl.cymru.net/mesur-iechyd-meddwl/>

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae'r gwasanaeth yn adolygu ac yn monitro ei berfformiad ei hun ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Drwy drafodaethau â staff a chynnal arsylwadau ar y ddwy ward, daethom i'r casgliad fod gwaith tîm da ar waith. Roedd staff wedi ymrwmo i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion, a dywedodd y staff eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan yr uwch-reolwyr.

Roedd prosesau ar waith i staff gael arfarniad blynyddol a chwblhau hyfforddiant gorfodol, ac roedd cyfradd uchel o ran cydymffurfio yn y meysydd hyn.

Mae tîm y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnal rhaglen o hyfforddiant ar gyfer nyrsys dan hyfforddiant, nyrsys cymwys, nyrsys cyffredinol a staff yn yr ysbyty. Roedd y rhaglen bwrpasol hon yn sicrhau bod gan staff y wybodaeth a'r sgiliau cyfredol yn y maes hwn.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â hwy yn gallu disgrifio'r broses ar gyfer adrodd am ddigwyddiadau, ac roedd y gwersi a ddysgwyd yn cael eu cyfathrebu i bob aelod o staff fel ffordd o wella'r gofal i gleifion.

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Gwelsom fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y ddwy ward yn canolbwyntio ar wella eu gwasanaethau'n barhaus. Roedd hyn yn cael ei gyflawni, yn rhannol, drwy raglen archwilio dreigl. Caiff ei chanlyniadau eu cyflwyno i uwch-reolwyr fel bod modd monitro canlyniadau a thrafod canlyniadau clinigol mewn perthynas â darparu gofal cleifion.

Roedd reolwyr y ward yn arweinwyr ymroddedig a brwdfrydig, ac roeddent yn cael eu cefnogi gan dimau ward ymrwymedig, timau amlddisgyblaethol cryf, ac uwch-reolwyr sy'n dod i'r ddwy ward yn rheolaidd. Canfuom fod y staff yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion.

Bu i'r staff siarad yn gadarnhaol am yr arweinyddiaeth a'r cymorth a ddarperir gan y rheolwyr ward ar y ddwy ward. Dywedodd y staff hefyd fod y gwaith tîm ar y wardiau'n dda iawn.

Roedd yn gadarnhaol, drwy gydol yr arolygiad, fod y staff ar y ddwy ward yn agored i'n safbwyntiau, ein canfyddiadau a'n hargymhellion.

## **Staff ac adnoddau**

### **Gweithlu**

Dywedodd staff wrthym a gwelsom fod gan y ddwy ward dimau oedd yn dangos gwaith tîm da ac unigolion brwdfrydig er mwyn darparu gofal ymroddedig i gleifion. Roedd yn gadarnhaol clywed am yr effaith roedd y tîm amlddisgyblaethol yn ei chael ar y grwpiau o gleifion.

Gwnaethom adolygu hyfforddiant staff a nodi bod rhaglen orfodol ar waith ar gyfer yr holl staff. Roedd systemau ar waith ar bob ward i fonitro cyfraddau cwblhau, ac roedd gwaith rheolwyr y wardiau o adolygu'r wybodaeth yn rheolaidd yn sicrhau bod staff yn cael eu cadw'n gyfredol. Dywedodd staff wrthym fod modd iddynt gael hyfforddiant ychwanegol a pherthnasol gyda chaniatâd eu rheolwr llinell, ac roedd hyn yn cael ei gofnodi ar y daenlen hyfforddiant.

Gwnaeth trafodaethau gyda staff dynnu sylw at yr hyfforddiant penodol ar y Ddeddf Iechyd Meddwl a ddarperir gan dîm y Ddeddf Iechyd Meddwl. Roedd rhaglenni ar waith ar gyfer nyrsys dan hyfforddiant, rhaglen dreigl ar gyfer nyrsys cymwys, a sesiynau hyfforddiant ar gyfer staff cyffredinol yn yr ysbyty. Roedd y rhaglen bwrpasol hon yn sicrhau bod gan staff y wybodaeth a'r sgiliau cyfredol yn y maes hwn.

Roedd staff yn derbyn arfarniadau blynyddol a oedd yn cael eu cofnodi ac roedd dyddiadau cwblhau yn cael eu cofnodi hefyd. Roedd sesiynau goruchwyllo ffurfiol ac anffurfiol amrywiol yn cael eu cynnal, yn dibynnu ar yr hyn oedd ei angen. Roedd cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal, a thrafodir yr hyn a ddysgir yn dilyn digwyddiadau a/neu adborth gyda staff.

## 4. Beth nesaf?

Lle'r ydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae'r rhain wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn cynnal arolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG

Fel arfer, mae ein harolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG yn ddirybudd. Byddwn bob amser yn ceisio cynnal arolygiadau dirybudd am fod hyn yn ein galluogi i weld gwasanaethau yn y modd y maent fel arfer yn gweithredu. Nid yw'r gwasanaeth yn derbyn unrhyw rybudd ymlaen llaw o arolygiad dirybudd.

Mae adborth yn cael ei wneud ar gael i gynrychiolwyr y gwasanaeth ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefel weithredol a lefel strategol.

Yn ystod ein harolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl y GIG, byddwn yn ystyried sut mae'r gwasanaethau'n gwneud y canlynol:

- Cydymffurfio â [Deddf Iechyd Meddwl 1983](#), [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\) 2010](#) a [Deddf Galluedd Meddyliol 2005](#)
- Bodloni agweddau ar [Safonau Iechyd a Gofal 2015](#)

Rydym hefyd yn ystyried safonau a chanllawiau proffesiynol eraill lle y bo'n berthnasol. Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn gwasanaethau iechyd meddwl y GIG.

Ceir manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu gwasanaethau [iechyd meddwl](#) a'r [GIG](#) ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni welwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn.			

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Ysbyty Tywysoges Cymru

**Ward(iau):** Ward 14 a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig

**Dyddiad yr arolygiad:** 21 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn nodi unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd.

Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Dim materion sicrwydd dybryd wedi'u nodi				

## Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Ysbyty Tywysoges Cymru  
**Ward(iau):** Ward 14 a'r Uned Gofal Dwys Seiciatrig  
**Dyddiad yr arolygiad:** 21 Tachwedd 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amse rlen	Diweddariad
<b>Ansawdd profiad y claf</b>					
Mae angen atgyweirio'r ffôn talu ar Ward 14 fel bod modd i gleifion ei ddefnyddio i gadw mewn cysylltiad â theulu a ffrindiau.	6.2 Hawliau pobl	Gwnaed cais i atgyweirio'r ffôn yn y gorffennol – byddaf yn trosglwyddo'r broblem i'r arweinydd TG ac arweinydd y switsfwrdd yn Ysbyty Tywysoges Cymru er mwyn cymryd camau gweithredu.  Mae'r ward yn caniatáu i gleifion ddefnyddio eu ffonau symudol eu hunain yn unol â pholisi	Rheolwr y Ward	31 Ionawr 2018	

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	Diweddariad
		<p>cyfathrebu ffonau symudol y bwrdd iechyd.</p> <p>I'r cleifion hynny nad oes ganddynt ffôn symudol, bydd staff y ward yn rhoi mynediad at linell dir iddynt ar Ward 14.</p>			
<p>Mae angen adolygu'r trefniadau ymweld ar Ward 14 er mwyn sicrhau bod modd i gleifion ac ymwelwyr gwrdd yn breifat a siarad heb i eraill ddigwydd eu clywed.</p>	<p>2.1 Rheoli risg a hyrwydd o iechyd a diogelwch</p> <p>2.7 Diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl</p>	<p>Defnyddir yr ystafell fwyta fel ardal i ymwelwyr, er ein bod yn cydnabod nad yw'n rhoi preifatrwydd llwyr oherwydd y cynllun agored. Mae ystafelloedd cyfweld ar gael y tu allan i fynedfa'r ward, a dwy ystafell ar y llawr cyntaf y gellir eu defnyddio pan asesir y risgiau'n briodol.</p> <p>Fel rhan o'u cynllun gwella, mae cleifion yn cael eu hannog i adael y ward a defnyddio'r cyfleusterau cyhoeddus yn</p>	<p>Rheolwr y Ward a Rheolwr y Gwasanaeth</p>	<p>31 Ionawr 2018</p>	

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amse rlen	Diweddariad
	4.1 Gofal ag urddas	<p>Ysbyty Tywysoges Cymru ar gyfer cysylltu â'u perthnasau a'u ffrindiau, pan fernir bod hyn yn briodol yn unol â'u hasesiad risg.</p> <p>Bydd rheolwr y ward a rheolwr y gwasanaeth yn cwrdd er mwyn cynnal adolygiad o argaeledd ystafelloedd ar y ward ac oddi arni, er mwyn gwella'r preifatrwydd ar gyfer cleifion a pherthnasau pan fyddant yn ymweld.</p>			
<b>Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol</b>					
Mae angen atgyweirio a/neu wella'r meysydd canlynol ar Ward 14:	2.1 Rheoli risg a hyrwydd o iechyd a	<p>Ffôn talu – gweler uchod.</p> <p>Gofynnwyd am bris gan y darparwyr. Cyn gynted ag y byddwn wedi cael pris, byddwn yn gosod archeb</p>	Rheolwr y Ward	31 Ionawr 2018	

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	Diweddariad
<p>Mae angen atgyweirio'r ffôn talu i gleifion</p> <p>Mae angen gosod llenni (neu'r hyn sy'n gyfwerth) ym mhob ystafell wely er mwyn diogelu preifatrwydd ac urddas cleifion</p>	<p>diogelwch</p> <p>2.8 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol</p>	<p>ar gyfer cael llenni newydd i'r ffenestr.</p> <p>Gofynnwyd am atgyweirio yn flaenorol. Wedi trosglwyddo'r broblem i reolwr ystâd Ysbyty Tywysoges Cymru er mwyn ei atgyweirio ar unwaith.</p>	<p>Rheolwr Ardal</p>	<p>31 Ionawr 2018</p>	
<p>Mae angen atgyweirio'r drws tân er mwyn sicrhau nad yw diogelwch staff a chleifion yn cael ei beryglu</p>		<p>Trefnu costau ar gyfer ailosod y cadeiriau, a'u cyflwyno i'w cymeradwyo.</p>	<p>Rheolwr y Ward / Rheolwr Ardal</p>	<p>31 Ionawr 2018</p>	

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen	Diweddariad
Mae angen diweddaru'r cadeiriau yn y lolfa i fenywod a'r ystafell weithgareddau oherwydd ôl traul					
Mae angen adolygu lleoliad y clychau galw i gleifion er mwyn sicrhau nad yw diogelwch ac urddas cleifion yn cael eu peryglu.	2.1 Rheoli risg a hyrwydd o iechyd a diogelwch  2.8 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol	Gwnaeth rheolwr y ward gwblhau adolygiad o'r system galw am nyrs ar y ward. Mae'r ystafelloedd gwely sydd â chlychau galw wedi'u lleoli y tu allan iddynt i gyd yn agos at y prif ardaloedd staff, h.y. y swyddfa / ystafell fwyta / y gegin. Mae'r ystafelloedd hyn wedi'u cynllunio i'w defnyddio gan gleifion y mae angen rhagor o arsylwadau arnynt, felly mae aelodau o staff bob amser yn agos. Mae gan yr ystafelloedd sydd ymhellach o'r prif ardaloedd staff glychau galw yn yr ystafelloedd eu hunain. Bydd rheolwr y	Rheolwr y Ward	Wedi'i gwblhau	

Yr hyn y mae angen ei wella	Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amse rlen	Diweddariad
	3.1 Gofal diogel a chlinigol effeithiol	ward yn sicrhau bod y cynllun rheoli hwn ar waith ar gyfer pob claf a dderbynnir, a bod staff yn ymwybodol o hyn.			
<b>Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth</b>					

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### **Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras):** Dermot Nolan

**Swydd:** Rheolwr Ardal

**Dyddiad:** 27/12/17